Arwr y strydoedd

Maddeuant / cryfder

Nicky Cruz: 1938–

Fyddwch chi weithiau yn hoffi bod yn aelod o'r gang? Mynd o gwmpas yr ardal yn gwneud drygau o bob math? Mae'n hawdd iawn bod efo criw o rai 'run fath â chi. Mae'r stori hon yn sôn am un oedd yn aelod o gang ar strydoedd Efrog Newydd. Ond un noson mewn cyfarfod Cristnogol fe ddigwyddodd rhywbeth...

Gwylltiodd Nicky yn gandryll. Os nad oedd yr athro yn gallu cadw trefn yna roedd ef am roi'r bachgen arall yn ei le unwaith ac am byth. Cydiodd yn y gadair a tharo'r bachgen ar ei ben. Pan awgrymodd y prifathro ei fod am ffonio'r heddlu, ateb Nicky oedd, "Gwnewch ac mi fyddwch chi'n farw." Gyda'r geiriau yna rhedodd allan o'r ysgol.

Ble bynnag roedd Nicky, byddai'n sicr o godi trwbl. Pan oedd yn fachgen ifanc yn Puerto Rico, roedd mewn trwbwl byth a hefyd. Trwy ei gyfnod yn yr ysgol roedd wedi creu llawer iawn o elynion iddo'i hunan. Roedd ei rieni am ei weld yn gadael y cartref. Rhoddwyd ef ar awyren i fynd i Efrog Newydd. Yno câi fyw gyda'i frawd Frank. Ond byr iawn y bu ar aelwyd ei frawd. Bu ffrae rhyngddyn nhw ac allan ag ef i fyw ar y strydoedd. Yno daeth ar draws gangiau o fechgyn ifanc gwyllt. Roedd criw ohonyn nhw mewn dillad duon ac M yn goch ar eu cefnau. Daeth yn ffrindiau â'r bechgyn. Dywedodd un ohonyn nhw wrth Nicky,

"Os wyt ti eisiau dod yn aelod o'r gang, byddwn yn ymosod arnat ti. Os doi di allan yn fyw, fe gei di fod yn rhan o'r tîm. O.K?"

Cytunodd Nicky. Cafodd gweir fythgofiadwy. Roedd yn awyddus i ddod yn un o'r gang. Roedd eisiau cael ei dderbyn gan rywun. Ar ôl chwe mis fe ddaeth yn arweinydd y gang. Doedd ganddo ofn neb na dim. Ond roedd yn dal yn fachgen unig.

Un noson cafodd y gang wahoddiad i gyfarfod Cristnogol. Gwrthododd Nicky fynd. Meddai un o'r gang wrtho, "Pam wyt ti ddim yn mynd i'r cyfarfod? Oes arnat ti ofn?" Roedd yn rhaid iddo fynd ar ôl clywed y geiriau yna.

Roedd aelodau o sawl gang yn bresennol yn y cyfarfod. Dechreuodd y pregethwr siarad efo nhw. Eisteddodd pawb i wrando, "Fe wnawn ni'r casgliad yn awr," meddai'r pregethwr, "a bydd gang y Man Man yn dod o gwmpas i gasglu'r arian."

"Iawn," meddai Nicky, "fe gasglwn yr arian a rhedeg i ffwrdd."

Ond ar ôl casglu'r arian, penderfynodd Nicky y byddai'n mynd â'r casgliad at y pregethwr.

"Y ffŵl gwirion," meddai un o'r gang. "Rho fo yn dy boced a dos am dy fywyd."

Ond am y tro cyntaf roedd Nicky wedi gwneud y peth iawn. Pan ddaeth Nicky â'r casgliad at y pregethwr tawelodd pawb yn yr eglwys. Edrychodd y pregethwr arno ac meddai wrtho,

"Mae Duw yn dy garu **di**. Mae o eisiau maddau i **ti**. Mae o eisiau dy newid **di** yn gyfan gwbl."

Edrychodd Nicky o'i gwmpas. Roedd pob llygad yn y gynulleidfa arno. Edrychodd ar ei ffrindiau. Plygai ambell un ei ben rhag edrych arno. Edrychai'r lleill ar y waliau a'r nenfwd.

Ildiodd Nicky i alwad y pregethwr. Penliniodd o'i flaen a rhoddodd y pregethwr ei ddwylo ar ei ben.

Do, daeth Nicky yn Gristion. Yn ystod yr wythnos ganlynol fe'i trywanwyd gan aelod o gang arall. Wnaeth Nicky ddim ymosod yn ôl. Gadawodd y gang. Daliodd i fyw ar y strydoedd. Bellach roedd yn helpu pawb a welai. Daeth yn aelod o gang arall ond gang gwbl wahanol oedd hon. Roedd y gang hon yn cadw cartref i bobl oedd dan ddylanwad cyffuriau. Daeth llawer i'w adnabod fel ffrind. Bellach roedd yn gallu rhoi ei amser i gyd i helpu eraill. Nid meddwl amdano'i hun oedd ei nod bellach ond bod yn ddwylo i Iesu Grist ar strydoedd Efrog Newydd.

"...oblegid nid yr hyn a wêl dyn y mae Duw'n ei weld. Yr hyn sydd yn y golwg a wêl dyn, ond mae'r Arglwydd yn gweld beth sydd yn y galon."

1 Samuel 16:7

O Dduw,
diolch nad ydyn ni'n gorfod dangos ein hunain i gael dy sylw di.
Amen.

Ydych chi'n credu fod hanes Nicky Cruz yn rhy dda i fod yn wir?

Nicky Cruz: 1938-